# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Rhagair | 4 |
| Ciplun ar eich archwiliad | 6 |
| Canfyddiadau archwilio cyfrifon | 8 |
| Canfyddiadau archwilio perfformiad | 10 |
| Ansawdd archwilio | 14 |
| Rhagor o wybodaeth | 15 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

# Rhagair



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ynghylch a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a pha un a ddefnyddiwyd gwariant ac incwm at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eich llywodraethu.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi ymgymryd â'm gwaith asesu strwythuredig blynyddol ac wedi adolygu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, trawsnewid digidol, a gwasanaethau gofal llygaid. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â safonau Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Ar adeg cyhoeddi'r crynodeb hwn, roedd y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal wedi'i gynllunio a chanser a Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng o dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru.

Mae'r canfyddiadau archwilio manwl ar gyfer pob un o'm hadolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Bwrdd. Yna byddaf yn trefnu bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i staff y Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliadau.

# Ciplun ar eich archwiliad

Derbyniais y cyfrifon drafft ar 2 Mai 2025 yn unol â'r terfyn amser statudol. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn dda.

Rhoddais farn gywir a theg ddiamod ar y cyfrifon ar 27 Mehefin, cyn y terfyn amser statudol o 30 Mehefin 2025, a barn amodol ar reoleidd-dra. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn, strategaeth hirdymor glir, a chynllun tymor canolig integredig (CTCI) cytbwys. Fodd bynnag, mae cynnydd araf ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol yn cyfyngu ar gyflymder trawsnewid. Mae cynllunio ariannol yn gadarn, ac mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni yn erbyn ei gynllun ariannol. Fodd bynnag, bydd bylchau arbedion, ynghyd â risgiau ariannol eraill, yn gwneud cyflawni targedau ariannol yn heriol.

Mae arosiadau hir ac ôl-groniadau gofal wedi'i gynllunio yn lleihau, er bod y digwyddiad difrifol a oedd yn ymwneud â'r to yn ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Hydref 2024 wedi effeithio ar yr adferiad. Mae perfformiad gofal brys ac argyfwng yn dal i fod yn heriol ac mae angen ei wella ymhellach. Mae arosiadau offthalmoleg wedi gostwng, ond mae targedau adfer heb eu cyflawni, ac mae perfformiad gofal llygaid gwael yn cynyddu'r risg o niwed y gellir ei osgoi.

Gwnaeth fy nhîm archwilio sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar gryfhau rheoli risg, cynllunio gwasanaethau, a chydlynu strategol, wrth wella llywodraethu, goruchwyliaeth glinigol, ac effeithlonrwydd gweithredol i gefnogi trawsnewid, gwella diogelwch cleifion, a sicrhau perfformiad cynaliadwy.

Gwnaeth fy nhîm archwilio bum argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd ynghylch cyfrifon 2024-25; derbyniwyd pedwar ohonynt gan reolwyr ac maent i'w gweithredu ar gyfer cyfrifon 2025-26.

Mae rhywfaint o waith ar ôl o fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025. Mae fy nhîm yn disgwyl cwblhau'r gwaith hwn erbyn haf 2026.

# Canfyddiadau archwilio cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ynghylch pa un a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi golwg cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 2 Mai 2025, sef y terfyn amser a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan.

## Fy marn archwilio

Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nodais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 25 Mehefin 2025, ac yna i'r Bwrdd ar 26 Mehefin.

### Cywir a theg

Gwnaed nifer gymharol fach o newidiadau i'r cyfrifon drafft sy'n deillio o fy ngwaith archwilio. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro a dim materion arwyddocaol i'w hadrodd.

Deuthum i'r casgliad fod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt.

### Rheoleidd-dra

Caniateir i'r Bwrdd Iechyd dderbyn incwm a chyflawni gwariant mewn ffyrdd sy'n dilyn y rheolau a osodwyd gan yr awdurdodau sy'n ei lywodraethu yn unig.

Hefyd, pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra.

Ar gyfer gwariant refeniw, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i gyflawni cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2022-2023 i 2024-2025. Ar gyfer y cyfnod tair blynedd, aeth y Bwrdd Iechyd £24,276 miliwn dros ei derfyn adnoddau refeniw ac felly rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra.

Ar gyfer gwariant cyfalaf, dros yr un cyfnod o dair blynedd, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol, gyda gwarged o £139,000.

Roedd yr holl drafodiadau ariannol perthnasol eraill yn unol â'r awdurdodau ac wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, felly cyhoeddais farn ddiamod ar reoleidd-dra y trafodiadau ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2024-2025 i 2026-2027.

Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni cydbwysedd ariannol.

## Cyfrifon Llywodraeth Gyfan

Fe wnes i hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Roedd fy nghanlyniadau archwilio yn foddhaol.

# Canfyddiadau archwilio perfformiad

## Asesiad strwythuredig

Edrychodd fy nhîm ar ba mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lywodraethu ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

Canfûm fod y Bwrdd yn gweithredu'n dda, gyda chefnogaeth trefniadau llywodraethu da. Mae strwythur newydd y pwyllgor yn ymgorffori'n dda. Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ond rhaid iddo wella sut mae'n monitro ac olrhain gweithredoedd sy'n deillio o straeon gwrando a dysgu. Er bod rheoli risg yn gyffredinol yn effeithiol, mae angen cryfhau rheoli perfformiad i fynd i'r afael â heriau parhaus wrth gyflawni targedau allweddol, yn enwedig mewn gofal brys a gofal wedi’i gynllunio, canser, a diagnosteg. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gynnal gwelliannau i ansawdd y gwasanaeth. Mae angen iddo hefyd ymateb i rai argymhellion archwilio hir-ddisgwyliedig.

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor glir, a Chynllun Tymor Canolig Integredig cytbwys yn ariannol sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol, gyda chefnogaeth y modelu ariannol priodol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn araf wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gan effeithio ar allu'r Bwrdd i ysgogi trawsnewid gwasanaethau yn gyflym. Mae cynllunio ariannol yn gryf, ac mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni yn erbyn ei gynllun ariannol. Ond bydd bylchau mewn cynlluniau arbedion, ynghyd â risgiau ariannol eraill, yn dal i wneud y gwaith o gyflawni targedau ariannol yn heriol.

Fe wnes i chwe argymhelliad yn canolbwyntio ar:

- adrodd am effaith camau a gymerwyd i liniaru risgiau sefydliadol;
- cymryd camau brys a pharhaus i leihau'r risgiau a nodwyd gan Gronfa Risg Cymru;
- sicrhau bod gweithredu argymhellion archwilio yn rhan allweddol o'i fframwaith atebolrwydd newydd;

- datblygu a gweithredu fframwaith defnyddio strategaeth i gydlynu'r holl raglenni strategol;
- safoni ‘Cynlluniau ar Dudalen' y CTCI er mwyn sicrhau cysondeb, eglurder a galluogi cymhariaeth haws o flaenoriaethau a chynnydd;
- cryfhau adroddiadau’r CTCI chwarterol trwy ddangos yn glir effaith cyflwyno cynllun ar draws pob maes gofynnol.

## Rheoli Gofal wedi’i Gynllunio

Edrychodd fy nhîm ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'i heriau gofal wedi’i gynllunio a lleihau ôl-groniad ei restr aros.

Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn lleihau nifer yr arosiadau hir iawn, er bod y digwyddiad difrifol yn ymwneud â tho ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Hydref 2024 wedi effeithio ar adferiad y rhestr aros. Mae ganddo gynlluniau tymor byr da, ond mae angen iddo ddatblygu ei gynllun gwasanaethau clinigol i helpu i lunio gwasanaethau a all fodloni’r twf disgwyliedig yn y galw yn y tymor hwy. Mae angen iddo hefyd wella sut mae'n adrodd ar niwed sy'n deillio o oedi mewn gofal wedi'i gynllunio.

Fe wnes i chwe argymhelliad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sefydlu cerrig milltir tymor hwy, sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun gwasanaeth clinigol;
- cryfhau'r gwaith o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal wedi'i gynllunio;
- monitro effaith cyllid ychwanegol ar gyfer adferiad gofal wedi'i gynllunio;
- sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant o fewn llwybrau gofal wedi'i gynllunio;
- cryfhau camau gweithredu i gyrraedd ei darged perfformiad trin mewn trefn;
- rheoli risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag aros hir.

## Gwasanaethau Gofal Llygaid

Gan adeiladu ar y gwaith Gofal wedi’i Gynllunio ehangach a grynhowyd uchod, edrychodd fy nhîm i weld pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd

drefniadau effeithiol i wella gwasanaethau gofal llygaid. Adolygodd y gwaith drefniadau lleol a rhanbarthol.

Canfûm fod y strategaeth gofal llygaid rhanbarthol yn gosod cyfeiriad cadarnhaol, ond mae'r cynnydd o ran gweithredu wedi bod yn araf. Mae trefniadau llywodraethu ar waith i oruchwylio’r gwaith o gyflawni rhanbarthol, ond gall gwneud penderfyniadau ar achosion busnes fod yn araf ac yn feichus sy’n cynnwys grwpiau lluosog ar draws y tri bwrdd iechyd. Mae'n werth nodi bod gweithio rhanbarthol wedi symud i ffwrdd o'i uchelgais wreiddiol o ddatblygu gwasanaethau arbenigol yn ehangach, gan ganolbwyntio yn hytrach ar greu capasiti gwasanaeth tymor byr ar gyfer gweithdrefnau cataract. Er mai nod y dull cataract rhanbarthol yw lleihau arosiadau hir, ar adeg fy ngwaith nid oedd wedi effeithio'n sylweddol ar nifer cyffredinol y cleifion a oedd yn aros am driniaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau'r arosiadau offthalmoleg hiraf ond nid yw'n cyrraedd targedau adfer gofal wedi'i gynllunio eto. Mae perfformiad yn erbyn y 'mesur gofal llygaid' yn wael, ac mae aros hir yn cynyddu'r risg o niwed y gellir ei osgoi. Mae angen cryfhau cynllunio lleol o ran gwasanaethau gofal llygaid, ehangu cwmpas gweithio rhanbarthol a sicrhau cynnydd pellach mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

Fe wnes i chwe argymhelliad, tri ar gyfer Bwrdd y Rhaglen Offthalmoleg Ranbarthol a thri ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- partneriaid rhanbarthol i gyflymu prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer cytuno ar achosion busnes;
- partneriaid rhanbarthol i ddatblygu cynllun adnoddau;
- partneriaid rhanbarthol i gytuno ar amserlenni realistig ond priodol uchelgeisiol ar gyfer tri cham Strategaeth Offthalmoleg Ranbarthol De-ddwyrain Cymru;
- datblygu cynllun gofal llygaid cynaliadwy;
- monitro a goruchwylio offthalmoleg;
- cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion offthalmoleg GIRFT[1].

[1] Cael pethau’n iawn y tro cyntaf

## Rheoli galw brys ac argyfwng

Edrychodd fy nhîm i weld pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system.

Gwelais fod perfformiad gwasanaeth gofal brys ac argyfwng yn parhau i fod yn heriol. Er bod cynlluniau a gwasanaethau newydd, gan gynnwys yr Hwb Llywio, yn cael effaith gadarnhaol ar reoli'r galw, mae angen gweithredu pellach i wella mynediad, ymgysylltu â chleifion a staff, a gwneud hi'n glir beth yw gofynion adnoddau.

Fe wnes i naw argymhelliad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau adnoddau cynlluniau gofal brys ac argyfwng;
- gwella gwybodaeth am wasanaethau sy'n darparu dewisiadau amgen i adrannau brys;
- monitro data o'r gwasanaethau amgen hynny;
- monitro cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol;
- gwella ansawdd data;
- sicrhau bod adborth cleifion a staff yn llywio cynlluniau darparu gwasanaethau;
- goruchwylio a chraffu ar gynlluniau a pherfformiad mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng.

## Mae gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

Ar adeg adrodd, roedd yr adolygiadau canlynol o Gynllun Archwilio 2025 yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd:

- llif cleifion allan o'r ysbyty;
- trawsnewid digidol;
- gwasanaethau canser;
- rheoli ystadau;
- apwyntiadau dilynol cleifion allanol.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o wybodaeth arall i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

**Ewch i'n gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad..

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.